

Gofynnwr am / Please ask for: Heledd Davies

Llinell Uniongyrchol / Direct Line: 01267 224066

E-bost Uniongyrchol / Direct E-mail: HeMDavies@sirgar.gov.uk

Dyddiad / Date: 4^{ydd} o Fedi 2026

Eich cyf / Your ref: Amherthnasol

Fy nghyf / My ref: HMD/HT-0572

Ffacs / Fax: **01267 224652**

DRWY BOST COFRESTREDIG A THRWY E-BOST

Clerc y Cyngor, Mr Dai Nicholas
Cyngor Cymuned Llandybïe
2 Heol Pentregwenlais,
Llandybïe,
Sir Gaerfyrddin,
SA18 3JQ

Annwyl Syr,

YNGHYLCH: Cais am Orchymyn i Gau Ffyrdd o dan Adran 116 o Ddeddf Priffyrdd 1980 Hen Safle Glo Gilfach Iago, Sir Gaerfyrddin

Gweler yn amgaaedig Hysbysiad o fwriad Cyngor Sir Gaerfyrddin i wneud cais i'r Llys Ynadon am Orchymyn i ddiddymu hawliau priffordd gyhoeddus ar dri darn cysylltiedig o briffordd ddiddosbarth yn y man uchod, ar yr amod bod hawliau llwybr ceffylau yn cael eu cadw.

Os ydych am wrthwynebu cais y Cyngor Sir, dylech naill ai gysylltu â Miss Heledd Davies o'r adran hon, fel y nodir isod, cyn dyddiad y gwrandawriad a restrir yn yr Hysbysiad, neu drefnu mynd i'r Llys Ynadon ar ddiwrnod y gwrandawriad er mwyn gwneud unrhyw sylwadau wyneb yn wyneb.

Cyfeiriad E-bost: HeMDavies@sirgar.gov.uk

Cyfeiriad Post: Cyngor Sir Gaerfyrddin, Adran Gyfreithiol, Neuadd y Sir, Caerfyrddin,
Sir Gaerfyrddin, SA31 1JP.

Pennaeth y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil
Neuadd y Sir, Caerfyrddin, Sir Gâr SA31 1JP.

Head of Law, Governance, and Civil Services
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP.

Mae croeso i chi gysylltu â ni yn Gymraeg neu Saesneg | You are welcome to contact us in Welsh or English

Yn gywir,

H. Davies

Heledd Davies, Cyfreithiwr

Ar gyfer ac ar ran Pennaeth y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil

HYSBYSIAD YNGHYLCH CAIS AM ORCHYMYN I GAU PRIFFORDD

ADRAN 116 O DDEDDF PRIFFYRDD 1980

HYSBYSIR bod Cyngor Sir Caerfyrddin, fel yr Awdurdod Priffyrdd, yn bwriadu gwneud cais i'r Llys Ynadon yn Sgwâr Neuadd y Dref, Llanelli, SA15 3AW ddydd Gwener, y 9^{fed} o Hydref 2026 am 12 hanner dydd, am orchymyn i gau:

- (a) y darn o'r Ffordd Ddiddosbarth (Cyfeirnod U4361) o Ffordd Pantyblodau yn y dwyrain, gan ddechrau i'r gorllewin o'r eiddo a elwir 'Glan y Nant' a pharhau tua'r gorllewin ac yna'r gogledd-orllewin am oddeutu 1.25 cilometr a gorffen wrth ffin ddeheuol gorsaf Dŵr Cymru Cyfyngedig; a'r
- (b) darn o'r Ffordd Ddiddosbarth (Cyfeirnod U2136) sy'n arwain o'r Ffordd Ddiddosbarth (Cyfeirnod U4361) i gyfeiriad y de am oddeutu 348 o fetrau hyd at y gyffordd â'r Ffordd Dosbarth III (Cyfeirnod C2136); a'r
- (c) darn o'r Ffordd Dosbarth III (Cyfeirnod C2136) o oddeutu 44 o fetrau i'r gorllewin o'r gyffordd â'r Ffordd Ddiddosbarth (Cyfeirnod U4361) i gyfeiriad y dwyrain am oddeutu 726 o fetrau, ger ffin orllewinol yr eiddo a elwir 'Cwm-bach',

(y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel "**y Briffordd**"), o dan Adran 116(4) o Ddeddf Priffyrdd 1980 ar y sail nad oes eu hangen ar gyfer cerbydau modur, ond bod hawliau llwybr ceffylau (cerddwyr, marchogaeth ceffylau ond gan eithrio coetsis a dynnir gan geffylau, a beiciau pedal) ar y Briffordd yn cael eu cadw.

Mae hyd y Briffordd sydd i'w chau wedi'i nodi ar y cynllun sydd wedi'i gynnwys gyda'r Hysbysiad hwn ac wedi'i gynrychioli gan y rhannau sydd wedi'u croeslinellu'n goch arno.

A handwritten signature in black ink that reads "Steven P Murphy". The signature is written in a cursive style with a large, stylized 'M' at the end.


.....

Steven P Murphy

Pennaeth y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil

Cyngor Sir Caerfyrddin

CY MUNED LLEOL LLANDYBIE
LOCAL COMMUNITY OF LLANDYBIE




Blaenau

CY MUNED LLEOL LLANDYBIE
LOCAL COMMUNITY OF LLANDYBIE

CY MUNED LLEOL LLANDYBIE
LOCAL COMMUNITY OF LLANDYBIE

Saron



© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2025 Arolwg Ordnans 100023377

Gwasanaethau Dylunio Peirianegol



Engineering Design Services

Adrian Harries B.Eng (Hons). C.Eng. M.I.C.E
Rheolwr Gwasanaethau Dylunio Proffesiynol
Professional Design Services Manager,

Adran Amgylchedd, Bloc 1,
Parc Myrddin, Waun Dew,
Caerfyrddin
Sir Caerfyrddin SA31 1HQ

Environment Department, Block 1,
Parc Myrddin, Richmond Terrace,
Carmarthen,
Carmarthenshire SA31 1HQ

Prosiect

**Gorchymyn Cau Arfaethedig, Gilfach Iago, hen Safle Gwaith Glo Brig rhwng Penygroes,
Saron a Blaenau, yn amodol ar hawliau llwybr ceffylau**

ADOL	DYDDIAD	DISGRIFIAD O'R ADOLYGIAD		ADOL GAN	WEDD WIRIO
Safon					

Gwneud gan	Dyddiad	Wedi'i wirio	Dyddiad	Awdurdodwyd	Dyddiad
J.I.P	06/04/23	J.I.P	06/04/23	V.P	25/05/23
Graddfa			Rhif y Proiect		
1/2500			80/0080/806		
			Rhif y darlun		Adolygiad
			SUP/GA1		-